OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2005 Rhif 1229 (Cy.87) (C.56)

CYNLLUNIO GWLAD A THREF, CYMRU

Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005

Wedi'i wneud - - 26 Ebrill 2005

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 121(5) a 122(3)(b) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 ("y Ddeddf")(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

Enwi

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 (Cychwyn Rhif 3 a Darpariaethau Canlyniadol a Throsiannol) (Cymru) 2005.

Y diwrnod penodedig

2. 30 Ebrill 2005 yw'r diwrnod penodedig i ddarpariaethau canlynol y Ddeddf, ddod i rym —

(a) adran 62 (cynllun datblygu lleol), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(b) adran 63 (gofynion paratoi), i'r graddau nad yw eisoes mewn grym;

(c) adran 72 (cyd-gynlluniau datblygu lleol); ac

(ch) adran 73 (eithrio rhai sylwadau).

Darpariaethau canlyniadol

3. Ar y diwrnod a bennwyd gan erthygl 2, daw effaith darpariaethau canlynol Deddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990 ("Deddf 1990")(**2**) i ben o ran Cymru —

(a) adran 12 (paratoi cynllun datblygu unedol);

(b) adran 21 (newid neu ddisodli cynllun datblygu unedol); ac

(c) adran 23B (cynlluniau datblygu unedol ar gyfer Parciau Cenedlaethol yng Nghymru).

(**1**) 2004 p.5.
(**2**) 1990 p.8.

Darpariaethau trosiannol

4. Mewn perthynas â'r awdurdodau cynllunio lleol a restrir yn yr Atodlen i'r Gorchymyn hwn a'u hardaloedd —

(a) ni fydd darpariaethau'r Ddeddf a gaiff eu dwyn i rym yn sgil erthygl 2 yn gymwys; ac

(b) bydd darpariaethau Deddf 1990 y daw eu heffaith i ben o dan erthygl 3 yn parhau mewn grym.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

D. Elis-Thomas
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

26 Ebrill 2005

(**3**) 1998 p.38.